# PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF
## CABINET

Cofnodion o gyfarfod hybrid y Cabinet a gynhaliwyd Dydd Mercher, 20 Mawrth 2024 am 10.30 am.

Cafodd y cyfarfod yma ei ddarlledu'n fyw, ac mae modd gweld y manylion yma

### Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol – Roedd y Aelodau Cabinet canlynol yn bresennol:

Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)

Y Cynghorydd M Webber
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd C Leyshon
Y Cynghorydd B Harris
Y Cynghorydd G Caple
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd M Norris

### Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oed yn bresennol

Y Cynghorydd S Emanuel
Y Cynghorydd K Johnson
Y Cynghorydd C Lisles
Y Cynghorydd K Morgan
Y Cynghorydd C Preedy
Y Cynghorydd G Stacey
Y Cynghorydd L A Tomkinson

### Swyddogion oedd yn bresennol

Mr P Mee, Prif Weithredwr
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr D Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor
Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Ms L Davies, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Mr S Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Mr S Williams, Pennaeth Materion Buddsoddi Strategol
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr P Griffiths, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella
Mr D James, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Ffyniant a Datblygu
Mr N Elliott, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Mr. M. Phillips, Rheolwr Gwasanaethau Refeniw
Mr A Critchlow, Rheolwr Gwasanaethau Parcio a Gwaith Stryd
Lawson, Rheolwr Cyflawniad
Ms C O'Neill, Rheolwr Celfyddydau a Diwylliant
Ms A Richards, Cyfarwyddwr Dros Dro – Ysgolion yr 21ain Ganrif a Materion Trawsnewid
Mr G Roberts, Integrated Transport Manager
Mr A Stone, Head of Flood Risk Management and Strategic Projects
Ms M Warburton, Ymgynghorydd Adnoddau Dynol – Carfan Materion Cydraddoldeb ac Amrywioldeb

**114 Croeso**

Croesawodd y Cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol i gyfarfod y Cabinet.

**115 Datgan Buddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda:

- Datganodd yr Arweinydd fuddiant personol mewn perthynas ag eitem 10 ar yr agenda – Rhaglen Gyfalaf Arfaethedig y Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant 2024-2025: "Rydw i'n Gadeirydd ar Gorff Llywodraethu rhai ysgolion sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad";
- Datganodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Hinsawdd a Gwasanaethau Corfforaethol fuddiant personol mewn perthynas ag eitem 10 ar yr agenda - Rhaglen Gyfalaf Arfaethedig y Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant 2024-2025: 'Rydw i'n rhan o Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Maes-y-Coed, y cyfeirir ati yn yr adroddiad';
- Datganodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Ffyniant a Datblygu fuddiant personol mewn perthynas ag eitem 10 ar yr agenda - Rhaglen Gyfalaf Arfaethedig y Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant 2024-2025: 'Rydw i rhan o Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Cwm Clydach, y cyfeirir ati yn yr adroddiad';
- Datganodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol K Johnson fuddiant personol mewn perthynas ag eitem 6 ar yr agenda - Adolygiad o Bolisi Cludo Disgyblion o'r Cartref i'r Ysgol y Cyngor: 'Rydw i'n rhan o Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Maes-y-Bryn sy'n ysgol gyswllt ar gyfer un o'r ysgolion cyfun; rydw i'n rhiant ar ddau o blant a fydd yn teithio i ysgol gyfun yn y dyfodol; ac rydw i hefyd yn gweithio i Drafnidiaeth Cymru"; a
- Datganodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol C Lisles fuddiant personol mewn perthynas ag eitem 6 ar yr agenda - Adolygiad o Bolisi Cludo Disgyblion o'r Cartref i'r Ysgol y Cyngor: 'Rydw i'n rhan o Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen ac Ysgol Gyfun y Ddraenen Wen, y cyfeirir atyn nhw yn yr adroddiad'.

**116 Cofnodion**

**PENDERFYNODD** y Cabinet gymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Chwefror 2024 yn rhai cywir.

**117 Cynllun Dirprwyo'r Arweinydd - 3A**

**PENDERFYNODD** y Cabinet nodi'r newidiadau i Gynllun Dirprwyo'r Arweinydd.

**118 Adborth Rhag-graffu**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu adborth a sylwadau i'r Cabinet mewn perthynas â'r eitemau y rhag-graffwyd arnyn nhw gan Bwyllgorau Craffu thematig y Cyngor yn dilyn cyfarfodydd diweddaraf y Pwyllgorau.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Nodi sylwadau'r Pwyllgorau Craffu yn dilyn rhag-graffu ar yr eitemau a restrir yn adran 5 o'r adroddiad.

## 119 Rhaglen Waith y Cabinet

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu adroddiad sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhestr arfaethedig o faterion y mae angen i'r Cabinet eu hystyried yn ystod Blwyddyn 2023-24 y Cyngor, a hynny er mwyn i Aelodau wneud sylwadau mewn perthynas â hyn.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Cymeradwyo'r Rhaglen Waith ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023-24 (gan addasu'n briodol yn ôl yr angen) a chael yr wybodaeth ddiweddaraf bob 3 mis.

## 120 Adolygiad o Bolisi Cludo Disgyblion o'r Cartref i'r Ysgol y Cyngor

Rhannodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Priffyrdd, Gofal y Strydoedd a Thrafnidiaeth ganlyniadau'r dasg ymgynghori â'r cyhoedd a gychwynnwyd gan y Cabinet, ynghyd â'r asesiadau o'r effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg diweddaraf mewn perthynas â Pholisi Cludo Disgyblion o'r Cartref i'r Ysgol newydd arfaethedig y Cyngor, a hynny i gynorthwyo'r Cabinet wrth iddo benderfynu a yw'n dymuno bwrw ymlaen gyda gweithredu'r Polisi Cludo Disgyblion o'r Cartref i'r Ysgol newydd.

Manteisiodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden ar y cyfle i ddiolch i'r swyddogion am rannu'r ohebiaeth a'r ymatebion i'r ymgynghoriad â'r Cabinet; a hefyd i ddiolch i'r trigolion am eu cyfraniad nhw, sydd wedi'i adlewyrchu yn yr adroddiad gyda 2858 o ymatebion gwerthfawr.

Nododd yr Aelod o'r Cabinet fod y Cyngor wedi darparu cludiant dewisol i fwy o ddysgwyr na bron pob un Cyngor arall yng Nghymru ers dros 10 mlynedd; a bod y Cyngor yn gyson wedi mynd y tu hwnt i'w ofynion cyfreithiol, fel y nodwyd gan Lywodraeth Cymru, o ran darparu cludiant am ddim i'w ddisgyblion.

Serch hynny, dywedodd yr Aelod o'r Cabinet, o ganlyniad i danariannu sylweddol gan Lywodraeth y DU a bwlch yn y gyllideb gwerth £85 miliwn dros y tair blynedd nesaf, rhaid i'r Cabinet ystyried cynigion a gyflwynwyd gan Swyddogion sy'n adolygu achosion lle mae ein gwasanaethau'n mynd y tu hwnt i'r gofyniad statudol a sut mae modd gwneud arbedion. Cyn cloi, pwysleisiodd yr Aelod o'r Cabinet fod costau cynyddol yn golygu bod polisi presennol y Cyngor mewn perthynas â Chludo Disgyblion o'r Cartref i'r Ysgol bellach yn

anghynaladwy a chydnabu'r rheswm dros gyflwyno'r adroddiad er mwyn i'r Cabinet ei ystyried.

O ran y cynnydd sylweddol yng nghostau Cludo Disgyblion o'r Cartref i'r Ysgol, ychwanegodd yr Arweinydd ei fod wedi cynyddu o £8miliwn yn 2015 i dros £15miliwn yn y blynyddoedd diwethaf.

Ategodd yr Arweinydd sylwadau'r Aelod o'r Cabinet mewn perthynas â'r Cyngor yn mynd y tu hwnt i'r disgwyl o'i gymharu ag Awdurdodau Lleol eraill ac eglurodd pe byddai'r Cabinet yn cytuno â'r argymhellion sydd wedi'u nodi yn adroddiad y swyddogion, byddai'r Cyngor yn dal i ddarparu un o'r polisïau Cludo Disgyblion o'r Cartref i'r Ysgol mwyaf hael yng Nghymru, gyda nifer fawr o unigolion yn elwa o gludiant dewisol. Dywedodd yr Arweinydd fod 18 Awdurdod Lleol arall naill ai wedi gwneud newidiadau sylweddol neu heb ddarparu'r elfen ddewisol ers blynyddoedd.

Pwysleisiodd yr Arweinydd nad oedd hwn yn benderfyniad hawdd i'r Cabinet ei wneud ond roedd yn rhaid ystyried pob opsiwn yn rhan o'r broses o bennu'r gyllideb, a hynny oherwydd yr heriau ariannol eithriadol o ganlyniad i'r cyllid isel sydd wedi'i ddyrannu gan y Llywodraeth Ganolog a'r pwysau parhaus ar y gwasanaethau cymdeithasol.

Manteisiodd y Dirprwy Arweinydd ar y cyfle yn gyntaf i ddiolch i Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu am eu sylwadau gwerthfawr a'u hadborth a nododd y llythyr a luniwyd yn rhan o'r papurau oedd yn cael eu cyflwyno i'r Aelodau.

Cydnabu'r Dirprwy Arweinydd y pryderon a fynegwyd gan drigolion drwy gydol y broses ymgynghori ac adleisiodd sylwadau'r Arweinydd drwy ddweud bod yr Aelodau'n wynebu penderfyniad anodd, ond un yr ystyriwyd ei fod yn angenrheidiol gan ystyried yr amgylchiadau ariannol presennol.

Gan gyfeirio at adborth y broses ymgynghori a'r sylwadau a wnaed yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, nododd y Dirprwy Arweinydd fod rhai pryderon wedi'u codi ynghylch diogelwch a gofynnodd a allai swyddogion gadarnhau y byddai pob llwybr yn cael ei adolygu a'i ailasesu, lle bo'n briodol, cyn cadarnhau cymhwysedd; a phe na bai llwybr yn cael ei ystyried yn ddiogel, yna byddai disgyblion sy'n cael eu heffeithio yn parhau i gael cludiant i'r ysgol am ddim. Siaradodd y Dirprwy Arweinydd am lwybr penodol yn ei ward hi, sef Rhydyfelin i Garth Olwg, ac aeth ati i egluro bod swyddogion wedi bod o gymorth iddi wrth fynd i'r afael â'r pryderon a'r cwestiynau a godwyd gan drigolion o fewn y ffin yma.

Gofynnodd y Dirprwy Arweinydd hefyd am sicrwydd ynghylch pa effaith, os o gwbl, y byddai'r cyhoeddiad diweddar gan Lywodraeth Cymru ynghylch yr adolygiad o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr yn ei chael ar y cynigion a argymhellwyd i'r Cabinet.

O ran yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, roedd y Dirprwy Arweinydd o'r farn ei fod yn asesiad cynhwysfawr a phwysleisiodd pa mor bwysig yw hi i roi sylw dyledus i'r ddeddfwriaeth berthnasol ac effeithiau economaidd-gymdeithasol. Nodwyd bod yr Asesiad Effaith yn amlygu rhai effeithiau negyddol a fyddai'n codi pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen gyda'r cynnig, ond ei fod hefyd yn nodi ystod o gamau lliniaru o ran sut y dylid monitro unrhyw effeithiau ar ôl gweithredu'r newidiadau, gan gynnwys ystyried opsiynau amgen a gyflwynwyd gan ymgyngoreion fel sydd wedi'u nodi yn adran 14 o'r adroddiad.

Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Cyfranogiad Pobl Ifainc a'r Gymraeg fod yna bryder naturiol ynghylch sut y byddai'r cynigion yn effeithio ar bresenoldeb mewn ysgolion. O ran sut yr oedd y Cyngor yn ceisio mynd i'r afael â lefelau presenoldeb isel, soniodd yr Aelod o'r Cabinet am y buddsoddiad sylweddol mewn nifer o wasanaethau cymorth yn y blynyddoedd diwethaf, megis y Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles a'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth a hefyd cyflwyno Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd. Nododd yr Aelod o'r Cabinet fod yr adroddiad yn dangos bod yna *tebygolrwydd cynyddol* na fydd disgybl yn mynychu'r ysgol os yw'n derbyn cludiant rhwng y cartref a'r ysgol.

Yna ceisiodd yr Aelod o'r Cabinet fynd i'r afael â phwynt allweddol arall a godwyd yn rhan o'r ymgynghoriad, sef yr effaith bosibl ar y Gymraeg. Soniodd yr Aelod o'r Cabinet am y camau sylweddol a gymerwyd gan yr Awdurdod Lleol i hyrwyddo mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg trwy Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg hynod o uchelgeisiol y Cyngor a'r buddsoddiad eang mewn adeiladu ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd ac adnewyddu ysgolion yn rhan o'r Rhaglen Gyfalaf; yn ogystal ag ymdrechion y Cyngor i gyrraedd uchelgais Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Gyda chytundeb yr Arweinydd, rhoddwyd caniatâd i'r Cynghorwyr isod annerch y Cabinet mewn perthynas â'r eitem:

- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol K Morgan;
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol L Tompkinson;
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol C Preddy;
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol K Johnson;
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Stacey;
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Emanuel; a
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol C Lisles.

**Nodwch:** Nododd yr Arweinydd fod deiseb wedi'i rhannu a'i derbyn gan y Cabinet cyn y cyfarfod.

Wrth ymateb i'r sylwadau a wnaed, dywedodd yr Arweinydd nad yw lobïo Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r "Public Service Vehicles Accessibility Regulations" yn opsiwn gan nad oedd yn fater datganoledig. O ran adeiladu ysgolion newydd a mynediad i ysgolion, nododd yr Arweinydd fod 116 o ysgolion yn y Sir, sydd llawer yn uwch na nifer o Awdurdodau Lleol eraill.

Yna rhoddwyd cyfle i swyddogion ymateb i'r cwestiynau a'r ymholiadau a godwyd hyd yn hyn yn y drafodaeth. Nododd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Priffyrdd, Gofal y Strydoedd a Thrafnidiaeth mai un o'r materion a godwyd yn aml oedd llwybrau diogel ac eglurodd fod pob llwybr yn cael ei asesu yn erbyn meini prawf y Canllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr 2014, fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad, ac felly'n cael eu hystyried fel llwybr sydd 'ar gael' neu 'ddim ar gael'. Gan gyfeirio at y llwybr a grybwyllwyd gan y Dirprwy Arweinydd, dywedodd y Cyfarwyddwr fod y llwybr wedi'i asesu yn 2018 a thybiwyd ei fod "ar gael". Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr y byddai llwybrau'n cael eu hailasesu i sicrhau bod y meini prawf yn cael eu bodloni, lle bo'n berthnasol.

O ran yr adolygiad o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr, dywedodd y Cyfarwyddwr y daethpwyd i'r casgliad na ddylid diwygio'r ddeddfwriaeth sy'n sail i drefniadau teithio gan ddysgwyr yng Nghymru ar hyn o bryd. Cydnabuwyd hefyd bod costau ar gyfer cyfrifoldebau statudol presennol yr Awdurdodau Lleol wedi cynyddu'n sylweddol heb newid unrhyw agwedd ar y ddeddfwriaeth yma. Er nad oedd y

diwygiadau terfynol wedi'u gwneud, dywedodd y Cyfarwyddwr fod yr adolygiad yn gwneud nifer o argymhellion i wella cysondeb, ansawdd a diogelwch y ddarpariaeth Teithio gan Ddysgwyr ledled Cymru, ond rhoddodd sicrwydd i'r Cabinet nad oedd yr un o'r argymhellion yma wedi effeithio ar yr argymhellion yn y ddogfen sydd ger eu bron.

O ran sylwadau'r Cyfarwyddwr mewn perthynas â'r llwybrau, ychwanegodd yr Arweinydd y gofynnwyd i'r Cabinet wneud penderfyniad polisi ac y byddai asesiad o'r llwybrau wedyn yn cael ei gynnal fel mater ar wahân. O ran yr arbedion a ragwelwyd mewn perthynas â'r cynnig, dywedodd yr Arweinydd fod y ffigurau'n seiliedig ar y ffigurau cyfredol, yn hytrach na'r ffigurau a ragwelwyd ar gyfer y dyfodol, a hynny er mwyn galluogi'r rhagamcaniad mwyaf cywir. Eglurodd na fyddai ffigur pendant ar gael nes bod y llwybrau wedi'u gwirio a'u dilysu'n annibynnol. Cydnabu'r Arweinydd y gallai'r arbedion fod yn fwy na'r hyn a ragwelwyd oherwydd costau trafnidiaeth dros y flwyddyn i ddod neu y gallai fod yn llai pe bai rhai o'r llwybrau cerdded yn cael eu hystyried yn anhygyrch.

Ategodd Cyfarwyddwr y Gyfadran Cyllid a Gwasanaethau Gwella sylwadau'r Arweinydd a phwysleisiodd y byddai swyddogion yn ystyried effaith unrhyw newidiadau i lwybrau a chontractau presennol o ran costau ac effaith chwyddiant. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y byddai unrhyw newidiadau'n cael eu cynnwys yng nghynlluniau ariannol tymor canolig y Cyngor i lywio prosesau pennu'r gyllideb yn y dyfodol a dywedodd na fyddai unrhyw benderfyniad yn effeithio ar Gyllideb Refeniw 2024-2025 y Cyngor.

Aeth yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Hinsawdd a Gwasanaethau Corfforaethol ati i ddiolch i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu am ei adborth a nododd y sylwadau'r Aelodau mewn perthynas â'r agenda newid hinsawdd. O safbwynt lleihau carbon, dywedodd yr Aelod o'r Cabinet y byddai lleihau nifer y cerbydau ar y ffordd yn fuddiol. Cyfeiriodd yr Aelod o'r Cabinet at Adrannau 18.6 i 18.8 yn yr adroddiad, sy'n nodi bod y rhan fwyaf o gerbydau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd ar gyfer cludiant rhwng y cartref a'r ysgol ymhell o fod yn gyfeillgar i'r amgylchedd a'u bod ymhlith y cerbydau sy'n achosi'r llygredd mwyaf ar briffyrdd y Cyngor. Nododd yr Aelod o'r Cabinet effaith bosibl cynnydd yn y defnydd o gerbydau preifat ond eglurodd nad oedd cynnal gwaith modelu mewn perthynas â hyn yn ymarferol nac yn ddefnydd doeth o amser swyddogion.

Ychwanegodd yr Arweinydd y byddai'n amhosib pennu'r effaith o ran y defnydd o gerbydau preifat gan y gallai unigolion ddewis cerdded, beicio, rhannu car neu ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, os yw'r opsiynau yma ar gael iddyn nhw.

Cydnabu'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Iechyd a Gofal Cymdeithasol y byddai unrhyw benderfyniad yn cael effaith ar deuluoedd; ac adleisiodd sylwadau cynharach yr Arweinydd ei bod yn sefyllfa nad oedd y Cabinet am fod ynddi. Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet y gofynnwyd i bob adran nodi arbedion posibl yn sgil pwysau ariannu a sefyllfa bresennol y Cyngor, ac mae modd i hyn arwain at wneud penderfyniadau anodd.

Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Ffyniant a Datblygu fod rhieni yn ei ward ei hun wedi mynd ati i drefnu eu cwmni bysiau eu hunain a chytunodd y byddai'n amhosibl pennu'r effaith ar y defnydd o gerbydau preifat. Gan ystyried y sylwadau a gyflwynwyd yn rhan o'r ymgynghoriad a sylwadau Aelodau'r Pwyllgorau Craffu, roedd yr Aelod o'r Cabinet o'r farn mai Adran 14.2 o'r adroddiad fyddai'r mwyaf cytbwys o ran cyflawni arbedion yn ogystal â lleihau'r effeithiau posibl. Byddai'r opsiwn yma'n cynnwys cynnal meini prawf pellter

dewisol presennol y Cyngor o ddarparu cludiant i bob ysgol gynradd (Cymraeg, Saesneg a Ffydd). Byddai darpariaeth cludiant i bob ysgol uwchradd a choleg (Cymraeg, Saesneg a Ffydd) yn newid i fod yn unol â'r meini prawf pellter statudol perthnasol fel y'u nodir yn y Mesur. Nododd yr Aelod o'r Cabinet y byddai RhCT yn dal i gynnig darpariaeth sy'n fwy hael na'r ddarpariaeth sy'n cael ei chynnig gan 18 o'r 22 Cyngor yng Nghymru, pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo.

Nododd yr Arweinydd fod 1 o bob 5 Cyngor yn Lloegr wedi awgrymu y bydden nhw'n wynebu anhawster ariannol yn y flwyddyn nesaf ac mae'n bosibl y bydd Hysbysiadau Adran 114 yn cael eu cyhoeddi; ac eglurodd y byddai angen i'r Cyngor gyflwyno cynnydd o 8%+ ychwanegol yn Nhreth y Cyngor er mwyn gwneud iawn am y diffyg yma. Nododd yr Arweinydd nad oedd Aelodau'r wrthblaid wedi darparu cyllideb amgen i'w hystyried a phleidleision nhw yn erbyn cynnydd yn Nhreth y Cyngor.

Cytunodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Iechyd y Cyhoedd a Chymunedau â phwynt y Cynghorydd S Emanuel ynghylch manteisio ar Metro newydd De Cymru a gweithio gyda chwmni Trafnidiaeth Cymru i liniaru rhai o'r effeithiau ar blant oedran ysgol uwchradd, yn benodol yn ardaloedd Treorci a Threherbert.

Ychwanegodd yr Arweinydd y byddai'n cynnal trafodaeth gyda chwmni Trafnidiaeth Cymru i weld a fyddai modd cynnig cyfleoedd i deithio ar fysiau neu'r metro i liniaru'r effeithiau yma lle bo modd, pe bai'r newidiadau'n cael eu cymeradwyo. Fodd bynnag, atgoffodd yr Arweinydd y Cabinet bod yn rhaid i unrhyw benderfyniad sy'n cael ei wneud heddiw fod yn seiliedig ar y ffeithiau oedd ger eu bron ac nid ar y rhagdybiaeth y byddai mesurau lliniaru o'r fath yn cael eu rhoi ar waith yn y dyfodol.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Cyfranogiad Pobl Ifainc a'r Gymraeg yn cytuno bod yr opsiwn a ffefrir wedi'i nodi yn adran 14.2 o'r adroddiad, sef cynnal meini prawf pellter dewisol presennol y Cyngor o ddarparu cludiant i bob ysgol gynradd (Cymraeg, Saesneg a Ffydd). Byddai darpariaeth cludiant i bob ysgol uwchradd a choleg (Cymraeg, Saesneg a Ffydd) yn newid i fod yn unol â'r meini prawf pellter statudol perthnasol fel y'u nodir yn y Mesur. Roedd yr Aelod o'r Cabinet o'r farn bod yr opsiwn yn rhoi rhywfaint o sicrwydd y byddai'r effaith ar addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei lliniaru, cyn belled ag y bo modd, tra'n cydnabod hefyd nad oes modd i'r Cabinet wneud penderfyniad ar sail yr wybodaeth yma'n unig. Roedd yr Aelod o'r Cabinet o'r farn y byddai hwn yn ddull rhesymol, a hynny'n seiliedig ar y nifer fawr o ffactorau y mae angen eu hystyried. Nododd hefyd na ddylai'r dull yma rwystro'r uchelgeisiau y mae'r Cyngor yn ymdrechu i'w cyflawni yn rhan o'i Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Cydnabu'r Aelod o'r Cabinet fod pryderon wedi'u codi ynghylch yr effaith ar rieni yn y dyfodol wrth iddyn nhw fynd ati i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu plant. Fodd bynnag daeth yr Aelod i'r casgliad y byddai'r opsiwn yma'n lliniaru'u pryderon, yn lleihau'r effaith ar ddysgwyr cyfrwng Cymraeg yn benodol ac yn parhau i ddarparu'r pellter meini prawf dewisol ar gyfer pob ysgol gynradd.

Gan gyfeirio at sylwadau'r wrthblaid mewn perthynas â chadw'r sefyllfa bresennol, dywedodd y Dirprwy Arweinydd nad oedd unrhyw opsiynau eraill i sicrhau arbedion neu gynnal cyllideb gytbwys wedi'u cyflwyno.

O ran llwybrau cerdded diogel, roedd swyddogion y Cyngor a'r cyngor proffesiynol a ddarparwyd ganddynt, sy'n seiliedig ar ganllawiau Llywodraeth

Cymru, wedi tawelu meddwl y Dirprwy Arweinydd a manteisiodd ar y cyfle i ddiolch iddyn nhw.

Pwysleisiodd y Dirprwy Arweinydd fod y Cyngor wedi rheoli ei gyllid cystal â phosibl, er gwaethaf ffactorau allanol ac aeth ati i roi bai ar Lywodraeth y DU am y sefyllfa yr oedd pob Cyngor ynddi ar hyn o bryd.

Roedd y Dirprwy Arweinydd hefyd o'r farn mai 14.2 oedd y dull mwyaf cytbwys a dywedodd fod yn rhaid i'r Cabinet fabwysiadu safbwynt cynhwysfawr ac archwilio'r holl resymau dros wneud penderfyniad. Nododd y Dirprwy Arweinydd y byddai 305 o ddisgyblion cynradd ychwanegol yn parhau i ddefnyddio'r ddarpariaeth pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, tra byddai gostyngiad hydrin hefyd yn yr arbedion sy'n cael eu cynhyrchu. Daeth y Dirprwy Arweinydd â'i chyfraniad i ben drwy ddweud bod yn rhaid i'r Cabinet fabwysiadu safbwynt cytbwys mewn perthynas ag unrhyw gynnig ac ystyried ystod o ffactorau. O'r herwydd, roedd y Dirprwy Arweinydd yn fodlon mai'r opsiwn yma fyddai'r dull cywir i'w fabwysiadu, a hynny ar sail yr angen i gynnal sefydlogrwydd ariannol a chan ystyried yr adborth a dderbyniwyd.

Dywedodd yr Arweinydd fod sylw dyledus wedi'i roi i'r holl sylwadau a gyflwynwyd yn rhan o'r ymgynghoriad a sylwadau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, yn ogystal â'r sylwadau a wnaed gan y siaradwyr yn y cyfarfod a'r ddeiseb a ddaeth i law. Nododd yr Arweinydd hefyd fod sylw dyledus wedi'i roi i'r asesiadau effaith cynhwysfawr. Er nad oedd yr argymhelliad wedi'i gynnig yn ffurfiol, cydnabu'r Arweinydd y byddai'r opsiwn a awgrymwyd gan y Cabinet yn lleihau'r arbedion posibl ond yn gam cadarnhaol o ran cludiant ysgol gynradd.

Adleisiodd yr Arweinydd ddatganiad y Dirprwy Arweinydd a dywedodd er nad oedd y penderfyniad yn ymwneud â gwleidyddiaeth, roedd yr economi wedi'i chwalu ac mae llawer o faterion, megis costau ynni a chwyddiant uchel, wedi cael effaith ar bob gwasanaeth cyhoeddus. Pwysleisiodd yr Arweinydd nad oedd ef eisiau gweld yr Awdurdod Lleol mewn sefyllfa lle nad oedd yn gallu fforddio darparu mwy na'i ddarpariaeth statudol yn ei feysydd gwasanaeth amrywiol.

Cynigiodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden yr argymhellion ac yn benodol y cynnig sydd wedi'i nodi ym mhwyntiau 14.2 a 14.3 o’r adroddiad (opsiwn 1), sef:
*14.2) Yr opsiwn cyntaf fyddai cynnal meini prawf pellter dewisol presennol y Cyngor o ddarparu cludiant i bob ysgol gynradd (Cymraeg, Saesneg a Ffydd). Byddai darpariaeth cludiant i bob ysgol uwchradd a choleg (Cymraeg, Saesneg a Ffydd) yn newid i fod yn unol â’r meini prawf pellter statudol perthnasol fel y’u nodir yn y Mesur.*
*14.3) Er y byddai'r Cyngor yn cyflwyno newid i'w feini prawf ar gyfer ysgolion uwchradd ac addysg ôl-16, byddai hefyd yn parhau i ddarparu pob elfen arall o'i ddarpariaeth cludiant dewisol, mae hyn yn mynd y tu hwnt i ofyniad statudol sylfaenol presennol Llywodraeth Cymru.*

**PENDERFYNODD** y Cabinet:
1. Trafod cynnwys yr adroddiad a chanlyniadau'r ymgynghoriad â'r cyhoedd, ynghyd â'r Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg cysylltiedig sydd ynghlwm wrth yr adroddiad;
2. Trafod a yw'r Cabinet yn dymuno diwygio'r cynnig a oedd yn destun ymgynghoriad, gan gynnwys ystyried yr opsiynau amgen a gyflwynwyd yn adran 14 yr adroddiad, a hynny yng ngoleuni'r adborth o'r ymgynghoriad â'r cyhoedd a'r dadansoddiad o'r Asesiadau o'r Effaith ar

Gydraddoldeb a'r Gymraeg;

3. Bwrw ymlaen â gweithredu Polisi Cludo Disgyblion o'r Cartref i'r Ysgol diwygiedig fel a ganlyn:
   • Cynnal meini prawf pellter dewisol presennol y Cyngor o ddarparu cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol i bob ysgol gynradd (Cymraeg, Saesneg a Ffydd);
   • Newid y ddarpariaeth cludo disgyblion ar gyfer pob ysgol uwchradd a choleg (Cymraeg, Saesneg a Ffydd) i fod yn unol â'r meini prawf pellter statudol perthnasol fel y'u nodir yn y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008;
   • Caniatáu i ddisgyblion barhau i ddewis eu hysgol addas agosaf yn unol â dewis addysg cyfrwng Cymraeg neu Saesneg, neu ddewis yn unol ag enwad crefyddol;
   • Parhau i ddarparu cludiant dewisol ar gyfer plant cyn oedran ysgol gorfodol (yn unol â'r meini prawf pellter dewisol presennol) a darparu cludiant ôl-16 dewisol (yn unol â'r meini prawf pellter statudol perthnasol); a
   • Parhau i ddarparu cludiant dewisol ar gyfer plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.
4. Cyhoeddi'r Polisi Cludo Disgyblion o'r Cartref i'r Ysgol diwygiedig erbyn 1 Hydref 2024, yn unol â gofynion statudol, a gweithredu'r polisi ar ddechrau blwyddyn academaidd 2025/26; a
5. Rhoi awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Priffyrdd, Gofal y Strydoedd a Thrafnidiaeth er mwyn iddo ddatblygu, cyflwyno neu ddiwygio unrhyw bolisïau/canllawiau gweithredol sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Polisi Cludo Disgyblion o'r Cartref i'r Ysgol diwygiedig.

**Nodwch -** O ran y sylwadau a gafodd eu gwneud gan rai Aelodau Etholedig mewn perthynas ag ymddygiad Aelodau Etholedig eraill, dywedodd yr Arweinydd y byddai'r Cyngor yn mynd i'r afael â'r mater yma y tu allan i'r cyfarfod.

## 121 Gweithio Gyda'n Cymunedau - Drafft o Gynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2024-2030

Rhannodd y Prif Weithredwr fanylion fersiwn drafft o'r Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2024/5 - 2029/30.

Manteisiodd yr Arweinydd ar y cyfle i ddiolch i swyddogion am y gwaith a wnaed i ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol drafft cynhwysfawr. Pwysleisiodd yr Arweinydd bwysigrwydd y cynllun strategol, sy'n cael ei ddefnyddio i lunio blaenoriaethau, cyllideb a Rhaglen Gyfalaf y Cyngor; a chydnabuwyd y byddai Cynllun 'hawdd ei ddarllen' llai yn cael ei ddatblygu o ganlyniad i hyn.

Roedd yr Arweinydd yn fodlon gyda'r Cynllun chwe blynedd newydd ac eglurodd y byddai modd cynnwys ychwanegiadau a newidiadau lle bo angen wrth i'r Cyngor ymateb i sefyllfaoedd penodol.

Adleisiodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Hinsawdd a Gwasanaethau Corfforaethol sylwadau'r Arweinydd ac roedd yn falch o nodi bod blaenoriaethau hinsawdd wedi'u gwreiddio drwy'r Cynllun. Ychwanegodd yr Aelod o'r Cabinet fod uchelgeisiau'r Cyngor yn gorbwyso'r heriau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Adolygu cynnwys y Cynllun Corfforaethol drafft ar gyfer 2024-30;
2. Nodi a thrafod canlyniadau'r broses ymgynghori ac ymgysylltu;
3. Trafod y sylwadau a'r adborth a gyflwynwyd yn dilyn gwaith rhag-graffu gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Cyngor; ac
4. Argymell bod y Cynllun Corfforaethol drafft yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor i'w gymeradwyo yn ystod ei gyfarfod ar 24 Ebrill 2024.

**122 Adroddiad Cyflawniad y Cyngor – 31 Rhagfyr 2023 (Chwarter 3)**

Rhoddodd Cyfarwyddwr y Gyfadran Cyllid a Gwasanaethau Gwella drosolwg o gyflawniad y Cyngor o safbwynt ariannol a gweithredol. Roedd hyn yn seiliedig ar naw mis cyntaf y flwyddyn ariannol yma (hyd at 31 Rhagfyr 2023).

Cydnabu'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Hinsawdd a Gwasanaethau Corfforaethol yr amgylchedd anodd y mae gwasanaethau'n gweithredu ynddo ar hyn o bryd; a'r pwysau ar draws y Cyngor o ran costau, sydd wedi'u heffeithio gan gynnydd yn y galw a lefelau chwyddiant uwch. Fodd bynnag, roedd pryderon yr Aelod o'r Cabinet yn parhau i gael eu tawelu gan y trefniadau rheoli gwasanaeth cadarn a'r gwaith rhagweithiol sy'n cael ei wneud ar draws y gwasanaethau i fynd i'r afael â'r heriau yma. Roedd yr Aelod o'r Cabinet yn arbennig o falch o nodi gwariant sylweddol y Rhaglen Gyfalaf, a oedd yn dangos buddsoddiad parhaus flwyddyn ar ôl blwyddyn ar draws asedau a seilwaith y Cyngor.

Soniodd yr Arweinydd am y gorwariant a ragwelwyd o bron i £2.5miliwn, mae hyn yn bennaf yn deillio o orwariant o £2.7miliwn yn y gwasanaethau cymdeithasol. Dywedodd yr Arweinydd fod hwn yn faes sy'n wynebu pwysau aruthrol ym mron pob Awdurdod Lleol ac eglurodd fod yn rhaid cwrdd â'r gofynion statudol, er gwaetha'r pwysau ariannol.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

Refeniw

1. Nodi a chytuno ar sefyllfa alldro Cronfa Gyffredinol y Cyngor fel y mae ar 31 Rhagfyr 2023 (Adran 2 o'r Crynodeb Gweithredol);
2. Gofyn bod y Cabinet yn cymeradwyo'r trosglwyddiadau sydd wedi eu rhestru yn Adrannau 2a–e o'r Crynodeb Gweithredol, sy'n uwch na'r trothwy o £0.100 miliwn yn unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor;

Cyfalaf

3. Nodi sefyllfa alldro cyfalaf y Cyngor fel y mae ar 31 Rhagfyr 2023 (Adrannau 3a-e o'r Crynodeb Gweithredol);
4. Nodi manylion Dangosyddion Materion Darbodusrwydd Cylch Rheoli'r Trysorlys fel y mae ar 31 Rhagfyr 2023 (Adran 3f o'r Crynodeb Gweithredol); a

Blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol

5. Nodi diweddariadau cynnydd Chwarter 3 ar gyfer blaenoriaethau Cynllun Corfforaethol y Cyngor (Adrannau 5 a – c o'r Crynodeb Gweithredol) sy'n cynnwys diweddariadau mewn perthynas â gwaith parhaus y Cyngor i gyflawni ei uchelgeisiau o ran Newid yn yr Hinsawdd.

123 **Rhaglen Gyfalaf Atodol 2024-25 ar gyfer y Priffyrdd, Trafnidiaeth a Chynlluniau Strategol**

Rhannodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Priffyrdd, Gofal y Strydoedd a Thrafnidiaeth fanylion rhaglen gyfalaf fanwl ar gyfer y Priffyrdd, Trafnidiaeth a Chynlluniau Strategol.

Aeth yr Arweinydd ati i ddiolch i'r Cyfarwyddwr a nododd y rhaglen buddsoddi cyfalaf eang y manylwyd arni yn yr adroddiad. Roedd yr Arweinydd yn falch o ddweud bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau oddeutu £8miliwn o gyllid priffyrdd ar gyfer prosiectau mwy gan gynnwys teithio llesol a diogelwch y ffyrdd; ynghyd â thua £3.5-4miliwn ar gyfer rheoli perygl llifogydd. Roedd yr Arweinydd yn hyderus y byddai grantiau pellach yn cael eu hychwanegu at y rhaglen eang drwy gydol y flwyddyn.

Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Iechyd a Gofal Cymdeithasol am effaith ddinistriol Storm Dennis yn RhCT pedair blynedd yn ôl, sydd wedi arwain at waith digynsail er mwyn ailadeiladu seilwaith hanfodol y Cyngor. Roedd yr Aelod o'r Cabinet o'r farn bod y rhestr o waith sydd i'w gweld yn Nhabl 5 yn yr adroddiad yn dystiolaeth o'r buddsoddiad sydd ei angen.

Ychwanegodd yr Arweinydd fod pedair blynedd wedi mynd heibio ers cyflwyno'r cyfyngiadau symud cenedlaethol o ganlyniad i bandemig Covid-19 ac aeth ymlaen i ganmol y swyddogion am barhau i weithio ar welliannau ac atgyweiriadau i seilwaith yn dilyn Storm Dennis trwy gyfnod mor anodd. O ganlyniad i'r buddsoddiad a chyllid rheoli perygl llifogydd sylweddol, dywedodd yr Arweinydd y byddai'r Cyngor mewn gwell sefyllfa i wynebu digwyddiad fel Storm Dennis, pe bai'n digwydd eto.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Nodi a chymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf Atodol ar gyfer y Priffyrdd, Trafnidiaeth a Chynlluniau Strategol yn unol â'r manylion yn yr adroddiad; a
2. Nodi bod y dyraniadau presennol yn rhan o raglen gyfalaf 3 blynedd sy'n dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Priffyrdd, Gofal y Strydoedd a Thrafnidiaeth, mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor a'r Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gyfadran Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen, i ymestyn gweithgarwch i gyflawni prosiectau ychwanegol yn ystod y flwyddyn ariannol lle mae capasiti yn bodoli ar gyfer cyflwyno carlam yn unol â phwrpas y rhaglen ehangach, neu atal rhaglenni/prosiectau dros dro ac ailddyrannu cyllid er mwyn gwneud y budd gorau.

124 **Rhaglen Gyfalaf Arfaethedig Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant 2024-2025**

Rhoddodd Pennaeth Ysgolion yr 21ain Ganrif fanylion i Aelodau'r Cabinet ynghylch gweithiau cyfalaf i'w cymeradwyo ar gyfer 2024/25, yn rhan o Raglen Gyfalaf dair blynedd y Cyngor.

Croesawodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Cyfranogiad Pobl Ifainc a'r Gymraeg yr ymrwymiad o £6.3miliwn yn rhan o'r Rhaglen Gyfalaf a phwysleisiodd mai penderfyniad strategol gan y Cabinet i gefnogi'r ysgolion oedd hwn. Nododd yr Aelod o'r Cabinet fod yr adroddiad yn cyfeirio at 'mân waith' ond pwysleisiodd nad oedd y gwahaniaeth y mae'r gwaith yn ei wneud i'r ysgolion yn fach, mae'n cyfrannu at sicrhau'r amgylchedd dysgu gorau oll i bobl ifainc y Fwrdeistref Sirol. Soniodd yr Aelod o'r Cabinet hefyd am y berthynas gadarnhaol a sefydlwyd rhwng yr Awdurdod Lleol ac arweinwyr yr ysgolion, a oedd yn cael ei werthfawrogi gan ysgolion.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Cymeradwyo cynlluniau blaenoriaethol y Rhaglen Gyfalaf (Addysg) ar gyfer 2024/25 fel sy'n cael eu hamlinellu yn Atodiadau 1-9 o'r adroddiad ac i gymeradwyo rhoi'r cynllun ar waith.

**125 Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2022-2023**

Darparodd y Rheolwr Amrywiaeth a Chynhwysiant wybodaeth am Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2022-2023.

Manteisiodd y Dirprwy Arweinydd ar y cyfle i ddiolch i'r garfan am y gwaith sylweddol a gafodd ei wneud er mwyn llunio'r Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol ac roedd yn falch o nodi bod y Cyngor wedi cyflawni'i Ddyletswydd Cydraddoldeb Cyffredinol. Roedd y Dirprwy Arweinydd yn cydnabod bod cydraddoldeb yn cwmpasu maes enfawr ac yn cael effaith ar holl waith y Cyngor.

Dymunodd y Dirprwy Arweinydd ddiolch hefyd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu am ei sylwadau a'i adborth, sydd i'w gweld yn Atodiad 2 i'r adroddiad.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Trafod y sylwadau ac adborth yn dilyn gwaith rhag-graffu gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Cyngor, fel sydd wedi'i nodi yn Atodiad 2 i'r adroddiad; a
2. Cymeradwyo cynnwys yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol a'i gyhoeddi.

**126 Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028**

Rhannodd y Rheolwr Amrywiaeth a Chynhwysiant wybodaeth â'r Cabinet mewn perthynas â Chynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor (2024-2028).

Manteisiodd y Dirprwy Arweinydd ar y cyfle i ddiolch i'r garfan am y gwaith sylweddol sydd ynghlwm â chynhyrchu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu am ei sylwadau a'i adborth, sydd wedi'i nodi yn Atodiad 2 i'r adroddiad.

Nododd y Dirprwy Arweinydd fod y Cynllun yn cynnwys yr holl nodweddion gwarchodedig a manylion o ran sut mae cyflawniad yn cael ei fesur. Ychwanegodd y Dirprwy Arweinydd fod yr Awdurdod Lleol wedi gwneud

cynnydd da ond bod lle i wella.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Trafod y sylwadau ac adborth, yn dilyn gwaith rhag-graffu gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Cyngor; a
2. Cymeradwyo cynnwys y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'i gyhoeddi.

## 127 Gweithio i greu Rhondda Cynon Taf Oed-gyfeillgar

Rhannodd Pennaeth y Celfyddydau, Diwylliant a Gwasanaethau Llyfrgelloedd wybodaeth ag Aelodau mewn perthynas ag ymrwymiad parhaus y Cyngor i fod yn Gymuned Oed-gyfeillgar, a'i gais arfaethedig i ddod yn aelod o Rwydwaith Byd-eang Sefydliad Iechyd y Byd o Ddinasoedd a Chymunedau Oed-gyfeillgar.

Dymunodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Iechyd a Gofal Cymdeithasol ddiolch i'r swyddog am yr adroddiad a dywedodd ei fod yn dystiolaeth o ymrwymiad parhaus y Cyngor i ddod yn gymuned oed-gyfeillgar. Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet am weledigaeth y Cyngor, sef sicrhau bod RhCT yn lle gwych i heneiddio a bod trigolion hŷn yn teimlo eu bod yn cael eu clywed, eu gwerthfawrogi a'u hysbysu.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet, ac yntau'n cyflawni rôl Hyrwyddwr Pobl Hŷn, yn falch o gefnogi'r Cyngor i gyflwyno cais i ddod yn aelod o Rwydwaith Byd-eang Sefydliad Iechyd y Byd o Ddinasoedd a Chymunedau Oed-gyfeillgar.

Ategodd y Dirprwy Arweinydd sylwadau'r Aelod o'r Cabinet ac roedd yn falch o gefnogi'r argymhellion yn yr adroddiad.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Trafod yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad a chymeradwyo cyflwyno cais i ddod yn aelod o Rwydwaith Byd-eang Sefydliad Iechyd y Byd o Ddinasoedd a Chymunedau Oed-gyfeillgar.

## 128 Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2023-2028

Cyflwynodd y Pennaeth Strategaeth Tai a Buddsoddi Mewn Tai ganfyddiadau'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2023 – 2028 i'r Cabinet a gofynnodd am gymeradwyaeth i'w chyflwyno i Lywodraeth Cymru ac yna i hysbysebu'r ddogfen.

Canmolodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Datblygu a Ffyniant y darn o waith, a oedd wedi'i seilio ar ddeilliannau data lleol sy'n cael ei fwydo i raglen fodelu Llywodraeth Cymru. Pwysleisiodd yr Aelod o'r Cabinet bwysigrwydd y ddogfen strategol, sydd, yn ei thro, yn bwydo i mewn i Strategaeth Dai'r Cyngor a'r strategaeth newydd a ffefrir ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol, sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Cymeradwyo Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2023-2028 yn ffynhonnell allweddol o dystiolaeth i gefnogi gwaith cyflwyno polisïau tai yng Nghynllun Corfforaethol, Cynllun Datblygu Lleol a Chynllun Cyflenwi Tai

y Cyngor;

2. Cymeradwyo Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2023-2028 fel offeryn i negodi darpariaeth tai fforddiadwy ar geisiadau cynllunio ac i nodi sut mae angen tai yn golygu gwahanol feintiau a mathau o dai fforddiadwy (e.e. rhent cymdeithasol a pherchnogaeth tai cost isel); a
3. Cymeradwyo'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2022-2037 i'w ddefnyddio i lywio ceisiadau am gyllid (gan gynnwys Grant Tai Cymdeithasol) ac i ddylanwadu ar ddatblygiadau preswyl yn y Fwrdeistref Sirol.

**129 Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad**

**PENDERFYNWYD:** "Bod y cyfarfod yma yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff xx o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf."

**130 Dileu dyledion nad oes modd eu casglu**

Yn dilyn trafodaeth am adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gyfadran Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen sy'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972 (fel y'i diwygiwyd), sef gwybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol unrhyw rai penodol (gan gynnwys yr awdurdod sy'n dal yr wybodaeth honno), **PENDERFYNODD y Cabinet:**

1. Dileu'r cyfrifon sydd wedi'u nodi yn y Ddarpariaeth o Ddyledion sydd wedi'i chynnwys yng nghyfrifon y Cyngor (gan geisio taliad os daw rhagor o wybodaeth am unrhyw ddyled i'r amlwg).

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.00 pm**

**Y Cynghorydd A Morgan**
**Cadeirydd.**